

Adran un

Cyn i chi ddechrau llenwi'r cais

- Cadwch gopi o'r ffurflen ar eich cyfrifiadur.
- Gnewch yn siŵr eich bod wedi darllen arweiniad y rhaglen (a'r arweiniad cyfalaf os yw eich prosiect yn cynnwys tir ac adeiladau). Mae hyn yn disgrifio pwy all ymgeisio i Pawb a'i Le, beth fyddwn yn talu amdano a sut y byddwn yn asesu'ch cais.
- Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg hefyd, I gwblhau'r ffurflen yn Saesneg, ewch i cronfagymunedolyg.org.uk/peopleandplacesmedium. Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg ac yn ymrwymedig i drin ceisiadau'n gyfartal yn y naill iaith na'r llall.

Cymorth gyda'ch cais

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Pawb a'i Le neu gwblhau'r ffurflen gais hon neu mae ei hangen arnoch mewn fformat gwahanol (er enghraifft, print bras), cysylltwch â'n Tîm Cymorth trwy anfon e-bost i cymru@cronfagymunedolyg.org.uk, ffonio 0300 123 0735 neu ddefnyddio'r gwasanaeth cyfnewid testun ar 18001 plws 0300 123 0735.

Mae ein gwefan cronfagymunedolyg.org.uk yn cynnwys gwybodaeth, cyngor ac awgrymiadau pellach i'ch helpu cwblhau'ch cais. Mae'n rhoi gwybodaeth am ffynonellau cefnogaeth lleol sy'n darparu cyngor ar ariannu hefyd.

Adran dau

Eich mudiad a manylion cyswllt

1. Beth yw enw cyfreithiol llawn eich mudiad (fel a ddangosir yn eich dogfen lywodraethu)?

Gwiriwch hyn - os yw'r enw cyfreithiol llawn yn anghywir gall achosi oedi i'ch cais.

2. Ydy eich mudiad yn defnyddio enw gwahanol yn eich gwaith bob dydd?

Yes No

Os ydy, pa enw arall ydych chi'n ei ddefnyddio?

3. Beth yw cyfeiriad eich mudiad?

Os byddwn yn cynnig grant i chi, dyma'r cyfeiriad y byddwn yn anfon ein llythyr cynnig iddo, felly gwnewch yn siŵr y gallwch dderbyn post yn ddiogel yn y cyfeiriad hwn. Argymhellwn mai cyfeiriad swyddfa eich mudiad yw hwn, ond os nad oes gennych swyddfa gall eich cyfeiriad cofrestredig fod yn gyfeiriad cartref.

Cyfeiriad

Côd post

Rhif ffôn un (llinell ddaearol)

Rhif ffôn dau neu ffôn testun

Gwefan

Cyfeiriad e-bost

Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn i roi gwybodaeth ddefnyddiol i chi, sôn am grantiau eraill sydd ar gael, ac i rannu gwybodaeth a storïau defnyddiol gan ddeiliaid grant eraill.

4. Ydy eich mudiad yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol? Os ydy, rhowch wybod i ni beth yw:

Enw'r dudalen ar Facebook

Y ddolen Trydar

5. Pa fath o fudiad ydych chi?

Mae angen i ni adrodd am faint o arian a ddyfarnwn i bob sector. I ba sector mae eich mudiad yn perthyn?

Sector cyhoeddus	<input type="checkbox"/>
Sector gwirfoddol a chymunedol	<input type="checkbox"/>
Arall, disgrifiwch	

Os ydych yn gymdeithas anghorfforedig a heb fod yn gofrestredig gyda'r Comisiwn Elusennau anfonwch gopi o'ch dogfen lywodraethu gymeradwy wedi ei llofnodi (er enghraifft eich cyfansoddiad, set o reolau neu weithred ymddiriedolaeth) atom gyda'ch ffurflen gais.

Rhowch unrhyw rifau cyfeirnod neu gofrestru sydd gennych:

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr

Tŷ'r Cwmnïau

Rhif cyfeirnod neu gofrestru arall

Rhowch fanylion:

6. Pryd sefydlwyd eich mudiad?

Rhowch y dyddiad pan fabwysiadodd eich mudiad ei statws cyfreithiol presennol. Dylai hwn fod yn eich dogfen lywodraethu. Mae angen i bob mudiad ddarparu hyn.

7. Beth yw eich statws TAW?

Am fwy o wybodaeth ar TAW, ewch i wefan Cyllid a Thollau EM hmrc.gov.uk/vat

- Wedi cofrestru ar gyfer TAW Heb gofrestru ar gyfer TAW

8. Ydy eich mudiad yn annibynnol, neu'n gangen neu adran mudiad mwy?

Os ydych yn gangen mudiad arall neu'n gysylltiedig â mudiad arall, dywedwch wrthym pwy ydynt, gan fod ganddynt, o bosib, beth cyfrifoldeb cyfreithiol os dyfarnwn grant i chi. Ticiwch y blwch priodol uchod. Gweler tudalen 7 y nodiadau arweiniad 'Cyn i chi ymgeisio'.

- Annibynnol - Bydd gan fudiad annibynnol ei ddogfen lywodraethu ei hun, bydd yn cynhyrchu ei adroddiad blynyddol ei hun a gall rheoli ei arian a'i staff ei hun.
- Cangen neu adran - I fedru ymgeisio i ni mae'n rhaid bod gan gangen ei dogfen lywodraethu ei hun (neu mae wedi mabwysiadu dogfen lywodraethu ei rhiant-fudiad), ei bod yn cynhyrchu ei chyfrifon blynyddol ei hun (a allai gael eu cynnwys yng nghyfrifon ei rhiant-fudiad), bod â chyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn enw cyfreithiol y gangen fel yr ymddengys yn ei dogfen lywodraethu a bod yn gyfrifol am sut mae'r arian ynddo'n cael ei wario.

Os ydych yn gangen, beth yw enw a chyfeiriad y mudiad mwy?

Os nad ydych yn siŵr p'un a allwch ymgeisio ai beidio, cysylltwch â ni (manyllion ar dudalen 2).

Eich pobl gyswllt

Mae angen rhai manylion personol arnom ar gyfer **dau berson gwahanol** sy'n ymwneud â'ch cais - **prif berson cyswllt** (y sawl y byddwn yn delio â nhw ar sail bob dydd) a **pherson cyswllt sy'n gyfreithiol gyfrifol**. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad blaenorol os ydynt wedi byw yn eu cyfeiriad presennol ers llai na thair blynedd.

Rydym yn defnyddio hyn i gyflawni rhai gwiriadau adnabyddiaeth sylfaenol fel rhan o'n proses atal twyll safonol, felly gwiriwch fod yr wybodaeth a ddarperir yn gywir. Mae angen i bob mudiad, gan gynnwys mudiadau statudol, ddarparu hyn.

Mae'n bosib y bydd ein gwiriad adnabyddiaeth yn ymddangos ar adroddiad credyd, ond nid yw'n wiriad credyd ac fe gaiff ei weld dim ond gan yr unigolyn rydym yn ei wirio, felly ni fydd ei radd gredyd yn cael ei heffeithio. Gallwch gael mwy o wybodaeth yn ein Canllaw i ddadansoddi risg, sydd ar gael [yma](#).

9. Nodwch brif berson cyswllt ar gyfer eich cais

Mae'n rhaid mai rhywun o'ch mudiad ydyw sy'n gyfarwydd â'r prosiect arfaethedig. Byddwn yn cysylltu â'r unigolyn hwn os bydd gennym unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cais.

Teitl

Enwau cyntaf

Cyfenw

Dyddiad geni (dd/mm/yyyy)

Teitl swydd

Cyfeiriad cartref

Côd post

Ffôn yn ystod y dydd

Ffôn gyda'r hwyr

Rhif ffôn symudol

E-bost

/ /

Dylai'r cyfeiriad e-bost fod yn un a ddefnyddir o ddydd i ddydd gan y prif berson cyswllt yn eich mudiad. Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn i roi gwybodaeth ddefnyddiol i chi, sôn am grantiau eraill sydd ar gael, ac i rannu gwybodaeth a storïau defnyddiol gan ddeiliaid grant eraill.

Os ydynt wedi byw yn y cyfeiriad uchod am **lai na thair blynedd**, rhowch eu cyfeiriad blaenorol.

Cyfeiriad blaenorol

Côd post

Os oes gan eich prif berson cyswllt unrhyw anghenion cyfathrebu, rhowch fanylion i ni.

Pa iaith ydych chi am i ni ei defnyddio pan fyddwn yn cyfathrebu â'ch prif berson cyswllt?

Cymraeg

Saesneg

Pa gyfeiriad dylem ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ohebiaeth? Dewiswch un:

Prif gyfeiriad y mudiad

Cyfeiriad cartref

Cyfeiriad arall

Os yn gyfeiriad arall, beth ydyw?

Côd post

10. Nodwch uwch berson cyswllt sy'n gyfreithiol gyfrifol ar gyfer eich cais.

Ni all fod yr un unigolyn â'r prif berson cyswllt ac mae'n rhaid iddynt fod dros 18 oed. Mae'r unigolyn hwn yn gyfrifol am sicrhau bod y cais wedi'i gefnogi gan y mudiad sy'n ymgeisio, bod y gwaith sydd i'w ariannu'n cael ei weithredu a bod y mudiad yn rhoi diweddariadau i ni ar gynydd. Os ydych yn elusen gofrestrdig neu gwmni, dylai'r unigolyn fod wedi ei restru fel ymddiriedolwr gan y Comisiwn Elusennau neu fel Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd gyda Thŷ'r Cwmnïau.

Teitl	
Enwau cyntaf	
Cyfenw	
Dyddiad geni (dd/mm/yyyy)	/ /

Beth yw eu teitl swydd? Mae'n rhaid i'r person cyswllt sy'n gyfreithiol gyfrifol fod mewn un o'r swyddi a ganlyn yn y mudiad sy'n ymgeisio. Ticiwch un blwch yn unig:

Math o fudiad	Cyfrifol yn gyfreithiol
Cwmni	<input type="checkbox"/> Cyfarwyddwr neu <input type="checkbox"/> Ysgrifennydd cwmni
Ysgol	<input type="checkbox"/> Pennaeth
Awdurdod lleol neu gorff iechyd	<input type="checkbox"/> Prif weithredwr neu <input type="checkbox"/> Gyfarwyddwr
Cyngor tref neu blwyf	<input type="checkbox"/> Clerc i'r cyngor (neu uwch ddeiliad swydd)

Pob math arall o fudiad

Cadeirydd

neu

Is-gadeirydd

neu

Drysorydd

Cyfeiriad cartref

Côd post

Ffôn yn ystod y dydd

Ffôn gyda'r hwyr

Rhif ffôn symudol

E-bost

Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn i roi gwybodaeth ddefnyddiol i chi, sôn am grantiau eraill sydd ar gael, ac i rannu gwybodaeth a storïau defnyddiol gan ddeiliaid grant eraill.

Os ydynt wedi byw yn y cyfeiriad uchod am **lai na thair blynedd**, rhowch eu cyfeiriad blaenorol.

Cyfeiriad blaenorol

Côd post

Os oes gan eich person cyswllt sy'n gyfreithiol gyfrifol unrhyw anghenion cyfathrebu, rhowch fanylion i ni yma.

Pa iaith ydych chi am i ni ei defnyddio pan fyddwn yn cyfathrebu â'ch person cyswllt sy'n gyfreithiol gyfrifol?

Cymraeg

Saesneg

11. Cyfrif banc eich mudiad

Mae'n rhaid bod gan bob mudiad sy'n derbyn grant gennym gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn enw'r mudiad fel y nodir yn eich dogfennau llywodraethu. Mae'n rhaid i sieciau gael eu llofnodi gan o leiaf dau berson nad ydynt yn perthyn i'w gilydd. Gallwch anfon cais atom hebdo, ond bydd yn rhaid i chi sefydlu cyfrif cyn i ni fedru talu grant i chi. Ydych chi'n bodloni'r gofynion hyn?

Ydym Nac ydym (Caiff hyn ei wneud os byddwn yn llwyddiannus)

Adran tri

Ynglŷn â'ch prosiect

12. Pa enw hoffech chi ei roi i'ch prosiect?

Rhowch deitl byr i'ch prosiect, rhywbeth y gallwn ei ddefnyddio mewn cyhoeddusrwydd os ydych yn llwyddiannus. Ysgrifennwch hyd at 70 o nodau (gan gynnwys bylchau)

13. Dywedwch wrthym am eich cymuned

Gallai eich cymuned fod yn lle, fel pentref, neu grŵp o bobl sydd â buddiannau neu brofiadau a rennir. Dywedwch wrthym:

- pwy yw/beth yw/ble mae eich cymuned?
- beth sy'n dda am eich cymuned. Gallai hyn gynnwys ei mudiadau, adeiladau, gweithgareddau neu sgiliau a phrofiad pobl.
- unrhyw heriau y mae eich cymuned wedi'u hadnabod
- sut rydych yn gweithio gyda'ch cymuned ar hyn o bryd.

14. Disgrifiwch eich prosiect, gan ddweud wrthym sut rydych yn bwriadu gwella'ch cymuned.

Dywedwch wrthym:

- beth fyddwch yn ei wneud, gan gynnwys y gweithgareddau a fydd yn digwydd
- pwy fydd yn elwa a sut, gan gynnwys y nifer o bobl
- sut y bydd eich cymuned yn cymryd rhan wrth ei gyflwyno
- sut y byddwch yn creu cysylltiadau â phobl a gwasanaethau eraill
- am unrhyw staff neu wirfoddolwyr sy'n gysylltiedig â'r prosiect

Nifer geiriau a awgrymir: 500 - 700

Sample

15. Sut ydych chi'n gwybod mai hon yw'r ffordd orau o gryfhau'ch cymuned?

Dywedwch wrthym:

- sut datblygodd y gymuned syniad eich prosiect
- pwy rydych wedi siarad â nhw (mudiadau a phobl eraill), gan gynnwys pryd y digwyddodd, y dulliau a ddefnyddiwyd a sut mae'n dangos yr angen am y prosiect
- sut mae'n gweddu i weithgareddau neu wasanaethau eraill sydd wedi eu cynllunio
- am unrhyw waith ymchwil ac ymgynghori rydych wedi ei gyflawni.

Pan fwriedir parhau a gweithgareddau presennol, ddywedwch wrthym hefyd sut rydych wedi siapio eich prosiect gan ddefnyddio:

- unrhyw wersi a ddysgwyd
- tystiolaeth y bu eich dull yn llwyddiannus
- unrhyw newidiadau allanol sy'n effeithio ar eich ffordd o weithio

Nifer geiriau a awgrymir: 500 - 700



16. Pa newidiadau a ddaw yn sgil eich prosiect?

Disgrifiwch y gwahaniaeth y bydd eich prosiect yn ei wneud trwy restru hyd at bedwar canlyniad arfaethedig ar gyfer eich prosiect. Bydd eich canlyniadau prosiect yn eich helpu rhedeg eich prosiect a mesur eich cyflawniadau.

Byddwn yn adolygu'ch canlyniadau prosiect i weld sut maent yn cydweddu â nod y rhaglen Pawb a'i Le, sef:

- Gan weithio ar y cyd, bydd pobl a chymunedau'n defnyddio eu cryfderau i gael effeithiau cadarnhaol ar y pethau sydd fwyaf pwysig iddynt.

Beth fydd eich prosiect yn ei wneud i wella pethau i'ch cymuned, a sut? Ym mhob canlyniad, dywedwch wrthym pwy, a faint o bobl, fydd yn elwa o'r newid a sut y byddant yn elwa.

I ddysgu mwy am ganlyniadau [darllenwch ein harweiniad ariannu yma](#), sy'n cynnwys enghreifftiau o ganlyniadau prosiect.

Ysgrifennwch hyd at 150 o nodau ym mhob blwch (tua 30 gair).

1.
2.
3.
4.

17. Ble fydd eich prosiect yn cael ei weithredu?

Dywedwch wrthym ble rydych yn bwriadu cyflwyno gweithgareddau'r prosiect? Nodwch y cod(au) post llawn. Er enghraifft CF10 2DY. Os caiff eich prosiect ei weithredu mewn sawl ardal, nodwch y côd post llawn ar gyfer pob lleoliad (hyd at bum lleoliad). Os yw'n brosiect Cymru gyfan, defnyddiwch gyfeiriad y brif swyddfa gyflwyno.

Enw (neu rif) yr adeilad a'r stryd

Côd post

Canran fesul
lleoliad

Prif
leoliad?

		0%	<input type="checkbox"/>
		0%	<input type="checkbox"/>
		0%	<input type="checkbox"/>
		0%	<input type="checkbox"/>
		0%	<input type="checkbox"/>

18. Dyddiadau dechrau a gorffen y prosiect

Rhowch frasamcan o'ch dyddiadau dechrau a gorffen. Dylai dyddiad dechrau eich prosiect fod o leiaf tri mis ar ôl i chi anfon eich cais atom.

Dyddiad dechrau / /

Dyddiad gorffen / /

19. Faint fydd eich prosiect yn ei gostio a faint hoffech ei gael gennym ni?

Dywedwch wrthym faint y bydd y prosiect yn ei gostio (mewn punnoedd cyfan yn unig, peidiwch â chynnwys ceiniogau) ac ar beth y byddwch yn gwario'r grant.

[Cliciwch yma i lawrlwytho templed taenlen gyllideb](#) i'w chyflwyno gyda'ch cais.

I gael cymorth wrth gwblhau eich cyllideb a chyfrifo eich costau cyffredinol, cyfeiriwch at ein canllaw i 'Adennill costau llawn', sydd ar gael [yma](#).

20. A fydd eich prosiect yn cynnwys gwaith adeiladu?

Bydd Na fydd

Os bydd, cysylltwch â ni (manyllion ar dudalen 2) i drafod natur y gwaith adeiladu, ac i sicrhau bod gennych y dogfennau perthnasol i'w cwblhau a'u cyflwyno gyda'ch cais.

21. Cyflwyno'r prosiect. Dywedwch wrthym:

- ba brofiad sydd gennych o weithio gyda'r gymuned a dargedir
- sut byddwch yn rheoli eich prosiect ac yn gwneud penderfyniadau
- am gefndir, profiad a sgiliau'ch mudiad a phwyllgor rheoli.

Nifer geiriau a awgrymir: 500 - 700



Sample

22. Staffio ar gyfer y prosiect. Dywedwch wrthym:

- faint o staff a gaiff eu cyflogi ar y prosiect a'r teitlau swydd
- faint o oriau y bydd deiliad y swydd yn gweithio ar y prosiect a'r cyflog
- P'un a yw'r swyddi'n rhai newydd neu bresennol (noder y bydd angen recriwtio swyddi newydd yn agored).



23. Sut byddwch yn mesur y newidiadau a ddaw yn sgil eich prosiect, yn y tymor hir a'r tymor byr?

Disgrifiwch:

- sut byddwch yn gwybod bod y prosiect yn gwneud cynnydd da
- pa wybodaeth y byddwch yn ei chywain i fonitro'ch prosiect
- sut y byddwch yn ei chywain, a pha mor aml
- gyda phwy y byddwch yn rhannu'r gwersi a ddysgir

Nifer geiriau a awgrymir: 500 - 700



24. Cyfle cyfartal: Dywedwch wrthym sut byddwch yn sicrhau y bydd pawb a allai elwa o'ch prosiect yn gallu cymryd rhan.

I gael gwybod mwy am sut i wneud eich prosiect mor agored â phosib i ystod mor eang â phosib o bobl, cliciwch [yma](#).

Mae'n ofynnol i chi ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru hefyd. I ddysgu mwy am y gofyniad hwn, cliciwch [yma](#).

Esboniwch:

- sut y bydd y bobl, neu fudiadau rydych yn eu targedu yn gwybod bod y prosiect yn bodoli, yn cael mynediad at eich prosiect ac yn gallu defnyddio'r cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir
- sut y byddwch chi'n diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg a Saesneg, ac unrhyw unigolion eraill sy'n cyfathrebu mewn iaith wahanol neu sydd â gofynion cyfathrebu eraill.

Nifer geiriau a awgrymir: 500 - 700



Adran pedwar

Pwy fydd yn elwa o'ch prosiect?

Nid oes unrhyw atebion model i'r cwestiynau hyn. Bydd eich atebion yn ein helpu i ddeall pwy sy'n elwa o'n hariannu ond nid ydym yn eu defnyddio i benderfynu p'un a fyddwn yn ariannu eich prosiect ai beidio.

25. A fydd eich prosiect o fudd pennaf i bobl o gefndir ethnig penodol?

- Bydd Na fydd

Os bydd, pa gefndir ethnig? Gallwch ddewis hyd at dri:

Gwyn

- Lloegr/Yr Alban/Cymru/Gogledd Iwerddon/Deyrnas Unedig Iwerddon
- Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig Unrhyw gefndir gwyn arall

Grwpiau ethnig Cymysg/Lluosog

- Cefndir ethnig cymysg (mae hyn yn cyfeirio at bobl y mae eu rhieni o gefndir ethnig gwahanol i'w gilydd).

Asiaidd / Asiaidd Deyrnas Unedig

- India Pacistan
- Bangladesh Tsieina
- Unrhyw gefndir Asiaidd arall

Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Deyrnas Unedig

- Y Caribî Affrica
- Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribiaidd arall Unrhyw gefndir gwyn arall

Grŵp ethnig arall

Arabaidd

Unrhyw gefndir arall

26. A fydd eich prosiect o fudd pennaf i bobl o ryw benodol?

Bydd Na fydd

Os bydd, pa ryw?

Gwryw

Benyw

Arall

Gwell gennyf beidio â dweud

27. A fydd eich prosiect o fudd pennaf i bobl o grŵp oedran penodol?

Bydd Na fydd

Os bydd, pa grŵp oedran? Gallwch ddewis hyd at ddau.

0-24 oed

25 - 64 oed

65+ oed

28. A fydd eich prosiect o fudd pennaf i bobl anabl?

Rydym yn defnyddio'r diffiniad o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n disgrifio unigolyn anabl fel rhywun â nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith andwyol sylweddol a hir dymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Bydd Na fydd

29. A fydd eich prosiect o fudd pennaf i bobl o grefydd neu gred benodol?

Bydd Na fydd

Os bydd, pa grefydd neu gred? Gallwch ddewis un.

Bwdhaeth

Cristnogaeth

Hindŵaeth

Iddewiaeth

Moslemiaeth

Sikhiaeth

Arall

Dim crefydd

Adran pump

Cwblhau eich cais

Diogelu data

Mae'r Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gorff cyhoeddus sydd â dyletswydd i ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol ac arian arall ar ffurf grantiau ar gyfer achosion da. Rydym yn defnyddio'r data personol a ddarparwch, fel manylion cyswllt unigolion yn eich mudiad, i'ch helpu ymgeisio am grant ac asesu'ch cais. Mae'n bosib y byddwn hefyd yn gwneud gwiriadau ar yr unigolion fel a ddisgrifir isod. Os dyfernir grant, byddwn yn defnyddio'r data personol i reoli a monitro'r grant, gwneud gwerthusiadau ac ymchwil, a gwirio bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

Mae'n bosib y byddwn yn rhannu'ch data personol gyda mudiadau sy'n ein helpu gyda'n gweithgareddau gwneud grantiau neu eraill sydd â diddordeb dilys yn ein gwaith neu sydd wedi ariannu'ch grant. Byddwn yn rhannu dim ond y data personol y mae ei angen arnynt i wneud eu gwaith ac yn amodol ar fesurau diogelwch priodol.

Mae'n bosib y byddwn yn cadw mewn cyswllt â chi trwy gydol bywyd eich grant ac yn anfon gwybodaeth atoch trwy e-bost ynglŷn â'ch grant. Bydd hon yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am ystod o bethau gan gynnwys sut i hysbysebu'ch grant, gwybodaeth am gyllid arall sydd ar gael a syniadau ac awgrymiadau prosiect gan ddeiliaid grant eraill.

Mae ein Hysbysiad Diogelu Data a Phreifatrwydd yn darparu mwy o wybodaeth am sut rydym yn storio ac yn defnyddio data personol a'r sail gyfreithiol dros hyn. Darllenwch yr Hysbysiad llawn sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn cronfagymunedolyg.org.uk/diogeludata neu cysylltwch â ni i ofyn am gopi caled. Mae'n bosib y caiff yr Hysbysiad ei ddiweddarau o dro i dro.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi'r hawl i'r cyhoedd ofyn am unrhyw wybodaeth a ddelir gennym. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a dderbynnir gan drydydd partion megis y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: ymgeiswyr am grantiau, deiliaid grantiau a chontractwyr. Darllenwch ein polisi llawn sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan cronfagymunedolyg.org.uk/rhyddidgwybodaeth. Gall y polisi hwn gael ei ddiweddarau o dro i dro.

Os credwch y gallai gwybodaeth yn eich cais fod wedi'i heithrio o gael ei rhyddhau os gofynnir amdani, dylech roi wybod i ni am hyn pan fyddwch yn ymgeisio. Ni fyddwn fel arfer yn rhyddhau gwybodaeth am eich prosiect wrth iddo gael ei asesu. Fel arall byddwn yn defnyddio ein barn i benderfynu p'un a fydd unrhyw eithriadau'n

berthnasol, y byddwn efallai yn ceisio'ch barn chi arnynt. Byddai data personol yn cael ei cuddio, yn amodol ar ofynion deddfau diogelu data.

Ein dull taclo twyll

Rydym yn gwybod bod mwyafrif helaeth y llawer o filoedd sy'n ymgeisio i ni ac yn defnyddio ein hariannu yn onest. Er hynny, weithiau rydym yn derbyn ceisiadau twyllodrus ac felly mae'n ddyletswydd arnom i wneud gwiriadau ar unigolion mewn mudiadau sy'n ymgeisio am grantiau.

Gan hynny, caiff yr wybodaeth rydym wedi'i chywain oddi wrthyhych ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac i gadarnhau eich adnabyddiaeth. Os byddwn yn canfod twyll, mae'n bosib y caiff gwasanaethau penodol, fel cyllid neu gyflogaeth, eu gwrthod i chi.

Mae manylion pellach sut caiff eich gwybodaeth ei defnyddio gennym a'r asiantaethau atal twyll hyn, eich hawliau diogelu data a sut i gysylltu â ni, ar gael yn llawn yn ein Hysbysiad Diogelu Data a Phreifatrwydd a gyhoeddir ar ein gwefan cronfagymunedolylg.org.uk/diogeludata. Cysylltwch â ni i ofyn am gopi caled.

Safonau'r Gymraeg

O dan Fesur y Gymraeg 2011 mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus yng Nghymru yn ogystal â mudiadau sy'n derbyn ariannu gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys arian gan y Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, fodloni gofynion y Mesur wrth ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae mwy o wybodaeth am ein Safonau Cymraeg ar gael i'w lawrlwytho [yma](#).

Gwirio bod eich cais yn gyflawn

Trwy gyflwyno'r cais hwn rydych yn cadarnhau'r canlynol:

- mae'r person cyswllt sy'n gyfreithiol gyfrifol a enwir yng nghwestiwn 11 a'r bwrdd neu bwyllgor sy'n rhedeg y mudiad wedi awdurdodi'r cais hwn
- rydych wedi bodloni ein gofynion os yw eich mudiad yn gangen neu adran mudiad mwy
- mae eich pwyllgor rheoli'n cynnwys isafswm o dri o bobl dros 18 oed nad ydynt yn perthyn i'w gilydd
- rydych wedi rhoi polisiâu a phrosesau perthnasol ar waith os bydd eich gweithgareddau'n cynnwys gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion bregus

- rydych chi'n cytuno y gallwn ddefnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i darparu at y dibenion a ddisgrifir o dan ein Polisi Diogelu a Rhannu Data, y gallwch ddod o hyd iddo [yma](#)
- os gofynnir am wybodaeth ynglŷn â'r cais hwn o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, rydych yn derbyn y byddwn yn ei rhyddhau yn unol â'n polisi Rhyddid Gwybodaeth y gallwch ddod o hyd iddo [yma](#)

Rydych wedi amgáu / e-bostio'r wybodaeth a ganlyn fel rhan o'ch cais:

- y ffurflen gais wedi'i chwblhau
- taenlen cyllideb y prosiect wedi'i chwblhau
- copi o'ch Cyfrifon Blyneddol wedi'u harchwilio diweddaraf - neu ragamcaniad 12 mis ar gyfer mudiadau newydd (ddim yn berthnasol i gyrff cyhoeddus)
- copi o'ch dogfen lywodraethu (os ydych yn gymdeithas anghorfforedig nad yw'n gofrestredig gyda'r Comisiwn Elusennau)

Cyflwyno eich cais

Anfonwch eich ffurflen wedi'i chwblhau trwy e-bost i pawbaile@cronfagymunedolyg.org.uk gan roi enw eich mudiad yn llinell pwnc yr e-bost. Mae'n well gennym dderbyn ffurflenni cais trwy e-bost, fodd bynnag os nad oes gennych fynediad i e-bost, anfonwch eich cais drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
10fed Llawr
Tŷ Helmont
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2DY

Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth ychwanegol atom yn y cam hwn oni bai ein bod wedi gofyn yn benodol i chi wneud hyn pan anfonwyd y ffurflen gais atoch. Mae'n bosib y byddwn yn gofyn i chi anfon unrhyw wybodaeth gefnogol bellach atom wrth i ni asesu'ch cais.

Os bydd angen i chi anfon unrhyw wybodaeth ychwanegol atom trwy e-bost, weithiau mae maint ffeil yr atodiadau'n eich atal rhag gwneud hyn. Os byddwch yn cael unrhyw broblemau gyda hyn, cysylltwch â ni (manylion ar dudalen 2).